



Mawrth 10fed 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma a diolch i Emlyn Davies a Carol Williams am gymryd gofal o'r gwasanaeth, ac i Rhiannon am gyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Mawrth 17eg - Sul Teuluol gyda Wendy Reynolds, Huw a Beth, gyda Siân yn cyfeilio

Mawrth 24ain - Y Parchg. Gethin Rhys gyda Wyn Jones, a Bethan yn cyfeilio

Mawrth 31ain - Allan James gyda Lyn West ac Eleri yn cyfeilio

Ebrill 7ed - Cynan Llwyd gyda Lowri Roberts a Rhiannon yn cyfeilio

Ebrill 14eg - Y Parchg. Aled Edwards gyda Nia Williams gyda Eleri yn cyfeilio

Ebrill 21ain - Sul Teuluol gyda Heulyn a Catrin gyda Siân yn cyfeilio

Ebrill 28ain - Geraint a Caroline Rees gyda Bethan yn cyfeilio

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan: carolinerees2@hotmail.com

CYLCH CADWGAN

Nos Iau, 14eg Mawrth 2019 am 8.00. pm.

FFION DAFIS

yn siarad am y testun " Syllu ar Walia"

Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

CYNHADLEDD WANWYN CRISTNOGAETH 21

Ar 29 a 30 Mawrth

yn Aberystwyth ar y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf Williams, Huw Williams a Gareth Wyn Jones. Mae'r manylion llawn ar wefan:

<http://cristnogaeth21.cymru/newyddion>

CYMORTH CRISTNOGOL CYMRU

Estynnir gwahoddiad i fynychu noson yng nghwmni Dr Rowan Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymorth Cristnogol, ac Amanda Mukwashi, y Prif Weithredwr *am 7.30 nos Lun 1 Ebrill*

yn Ararat, Eglwys y Bedyddwyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd i gyd-fynd gyda lansiad eu strategaeth fyd- eang dros y cyfnod 2019-26 i ddileu tlodi eithafol trwy geisio urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder i bawb. Bydd yna gyfle i holi'r ddau siaradwr ac i'r eglwysi ystyried y rôl nodedig sydd gan Gymru i'w chwarae.

Os ydych yn dymuno mynychu'r cyfarfod dylech gysylltu gyda Janet Evans, Cymorth Cristnogol Cymru erbyn 15 Mawrth: jevans@cymorth-cristnogol.org Ffôn: 029 2084 4646.

MERCHED Y TABERNACL

*Dydd Iau, 11eg Ebrill
am 11.00. a.m.*

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Arddangosfa o waith
Kyffin Williams.
Fe fydd un o'r staff yn tywys
ni o gwmpas.
Enwau i Eifiona Hewitt.**

ELUSENNAU 2019

**Dyma'r elusennau y byddwn yn eu
cefnogi drwy gasgliad yr amlenni
brown eleni:
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn
gwerthfawrogi ein cefnogaeth
gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i
Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a
phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.**

CASGLIADAU DILLAD A NWDYDDAU

**Mae'r casgliadau ar gyfer Adref,
Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn
weithredol eleni. Diolch yn fawr
iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau
cyson i'r elusennau allweddol yma.
Maen nhw'n hynod werthfawrogol
o'n cefnogaeth.**

DATBLYGIADAU'R FYNWENT A'R RHANDIR

Mae'n bosib nad yw pawb yn ymwybodol o'r gwaith clirio anhygoel a gwblhawyd dros fisoedd y gaeaf gan dîm bach iawn o wirfoddolwyr ym mynwent a rhandir y capel. Mae gennym le i ddiolch iddynt am roi wythnosau o'u hamser i gyflawni'r gwaith anodd o docio, clirio a lloggi'r holl ddrain a'r mieri oedd wedi cael rhwydd hynt i ffynnu ers blynnyddoedd lawer. Pan ddaw cyfle cofiwch ddiolch i'r pedwar fu'n llafurio mor ddiwyd sef Emlyn 'Pens' Jones, Edwyn Evans, Mike West a John 'Llew' Thomas.

Ond nid dyma eu hunig gymwynas i ni gan iddynt hefyd gyflwyno adroddiad cynhwysfawr i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar ddechrau'r cynllun yn dangos y ffordd i fynd ati i gwblhau ail gymal y gwaith sef ehangu'r fynwent a chryfhau rheolaeth o'r rhandir. Wedi derbyn sêl bendith y Bwrdd i'w hargymhellion maent wedi bwrw ati yn ddiymdroi i drefnu bod contractwr yn dod a'u peiriannau pwrpasol i dorri rhai o'r coed mwyaf yn y fynwent, symud tunelli o bridd rhydd o'r rhandir er mwyn gwastadau'r tir yn ardal bellaf y fynwent a chludo gweddill y pridd rhydd i ben pellaf y rhandir. Bellach mae'r cynllun hefyd yn cynnwys creu lle parcio i nifer cyfyngedig o gerbydau ar dir y rhandir yn agos at y fynedfa.

Dros yr wythnosau nesaf gallwch ddisgwyl tipyn o brysurdeb o amgylch y capel ac felly mae'n bwysig iawn bod yn ofalus os byddwch yn ymweld â'r fynwent neu'r rhandir yn ystod y cyfnod hwn.